

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SF/MD/0713/15

David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol

30 Mawrth 2015

Annwyl David,

Marw-enedigaethau yng Nghymru – Adroddiad Cynnydd

Mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 26 Chwefror, amgaeaf adroddiad cynnydd ar weithredu'r naw argymhelliad yn dilyn yr ymchwiliad undydd i farw-enedigaethau yng Nghymru ym mis Chwefror 2013.

Er bod rhagor o waith i'w wneud eto i weithredu'r argymhellion yn llawn, mae'n bleser gennyf adrodd ar y cynnydd sylweddol a wnaed hyd yn hyn a chyfraniad staff clinigol proffesiynol ar draws Cymru.

Best wishes
Mark Drakeford.

Mark Drakeford AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Ymchwiliad Undydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i Farw-enedigaethau yng Nghymru
Diweddariad gan Llywodraeth Cymru ar yr ymateb i'r argymhellion, Mawrth 2015**

Argymhellion	Sylwadau'r Pwyllgor ar y cynnydd	Ymateb Llywodraeth Cymru
<p>Argymhelliad 1: Mae ymwybyddiaeth gyhoeddus o farw-enedigaethau a'r ffactorau risg yn hanfodol er mwyn gostwng cyfraddau marw-enedigaethau Cymru. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n rhoi arweiniad - drwy'r Gweithgor Cenedlaethol ar Farw-enedigaethau a sefydlwyd yn ddiweddar - i ddatblygu negeseuon iechyd cyhoeddus allweddol fel mater o flaenoriaeth. Bydd hyn yn codi ymwybyddiaeth darpar rieni a'r rhai sy'n bwriadu cychwyn teulu o'r risg o farw-enedigaeth, a bydd yn caniatáu iddynt wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu hiechyd a'u beichiogrwydd.</p>	<p>Nododd y rhanddeiliaid fod diffyg eglurder ynglŷn â safbwynt Llywodraeth Cymru ar y ddogfen consensws sy'n cynnwys negeseuon allweddol am farw-enedigaethau. Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i gydweithio â phartneriaid perthnasol i egluro'r sefyllfa.</p>	<p>Bydd y ddogfen ddrafft a ddatblygwyd gan SANDS ym Mhwyllgor y DU yn eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Gweithgor Cenedlaethol ar Farw-enedigaethau ym mis Mawrth 2015. Prif Swyddog Nyrsio Cymru yw cadeirydd y Gweithgor hwnnw.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn llwyr gefnogi barn a chynngor aelodau'r Gweithgor.</p> <p>Drwy'r Rhwydwaith Mamolaeth, gofynnir i'r byrddau iechyd gytuno ar y ffordd orau i gyflwyno'r negeseuon hyn i'r holl ferched beichiog yng Nghymru.</p>
<p>Argymhelliad 2: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda chyrff proffesiynol a byrddau iechyd yng Nghymru i sicrhau bod pob darpar riant yn cael gwybodaeth ddigonol gan glinigwyr a bydwagedd am farw-enedigaethau a'r risg gysylltiol. Dylai trafod marw-enedigaeth ffurfio rhan arferol o'r sgwrs a gynhelir rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol a darpar rieni yn ystod y beichiogrwydd. Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â'r</p>	<p>Byddem yn croesawu mwy o fanylion am sut y mae Llywodraeth Cymru'n cydweithio â chyrff proffesiynol a rheolwyr byrddau iechyd i sicrhau bod trafod marw-enedigaethau'n ffurfio rhan arferol o'r sgwrs a gynhelir â darpar rieni.</p>	<p>Cyn gynted ag y bydd cytundeb yn y cyfarfod ym mis Mawrth ar ba negeseuon a fydd yn ffurfio rhan o'r "sgyrsiau arferol", mae'r Rhwydwaith Mamolaeth yn bwriadu lansio'r gwaith hwn ar gyfer bydwagedd ac obstetryddion yng Nghymru. Bydd canllawiau ar hyn yn cael eu hychwanegu at e-Lawlyfr Llywodraethu GIG Cymru.</p> <p>Fel rhan o Ddigwyddiad Dysgu Cenedlaethol 1000 o Fywydau ym mis Mehefin, cynhelir dosbarth meistr ynglŷn â hybu'r negeseuon hyn i ferched. Cyfrifoldeb y byrddau iechyd fydd hi wedyn, drwy</p>

<p>byrddau iechyd i fonitro anghenion hyfforddi a chymhwysedd gweithwyr iechyd proffesiynol mewn perthynas â marw-enedigaethau.</p>		<p>waith datblygu proffesiynol parhaus, i sicrhau fod y negeseuon yn ffurfio rhan arferol o'r sgysiau a gynhelir â darpar rieni.</p>
<p>Argymhelliad 3: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda chyrrff proffesiynol a chyrrff rheoleiddio, ynghyd â sefydliadau academaidd perthnasol, i sicrhau bod marw-enedigaethau, y ffactorau risg a'r ymyriadau cysylltiol, a hyfforddiant profedigaeth, yn cael lle amlycach yng nghwricwla bydwreigiaeth ac obstetreg Cymru.</p>	<p>Efallai y gallai Llywodraeth Cymru egluro sut y mae'n cydweithio â'r byrddau iechyd i adolygu anghenion hyfforddi gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â marw-enedigaethau a'u cymhwysedd yn y maes.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi cael sicrwydd gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Grŵp Cymru Gyfan ar Addysg Bydwreigiaeth fod cynnwys y cwricwlwm yn addas. Bellach, cyfrifoldeb y byrddau iechyd yw adolygu anghenion hyfforddi a chymhwysedd gweithwyr iechyd proffesiynol, gan gynnwys cydweithio â sefydliadau addysg uwch i adnewyddu cynnwys y cwricwlwm, er mwyn sicrhau bod y cymwyseddau'n cael eu cynnal.</p>
<p>Argymhelliad 4: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n ymchwilio i ganfod a fyddai'n dichon sefydlu rhwydwaith mamolaeth i yrru'r gwaith o safoni gofal ar draws Cymru. Credwn y dylid, fan lleiaf, sefydlu rhithrwydwaith clinigol o fewn y 12 mis nesaf.</p>	<p>Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth am y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pryd y bydd y Gweithgor Cenedlaethol ar Farw-enedigaethau yn cyfarfod? • Sut y bydd cynnydd y Gweithgor yn cael ei fonitro? • A fydd cofnodion y Gweithgor yn cael eu cyhoeddi? • Ai un o'i swyddogaethau craidd fydd casglu data ar farw-enedigaethau? 	<p>Mae'r Gweithgor yn bwriadu cyfarfod ar 18 Mawrth, 15 Ebrill, 8 Gorffennaf, 14 Hydref.</p> <p>Caiff y cynnydd ei fonitro drwy Grŵp Llywio'r Rhwydwaith Mamolaeth, sy'n adrodd i Grŵp Llywio 1000 o Fywydau ac wedyn i Brif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru.</p> <p>Yng nghyfarfod nesaf y Gweithgor ar 18 Mawrth, bydd y Rhwydwaith Mamolaeth yn trafod sut y gallai cofnodion y cyfarfodydd fod ar gael yn gyhoeddus.</p> <p>Mae Arolwg Amenedigol Cymru Gyfan yn aelod allweddol o'r Gweithgor, a bydd data ar farw-enedigaethau'n parhau i gael eu monitro a'u cyhoeddi drwy Arolwg Amenedigol Cymru Gyfan.</p>

<p>Argymhelliad 5: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n cynnal adolygiad o'r nifer o fenywod yng Nghymru sy'n esgor fwy na thri diwrnod ar ddeg ar ôl eu dyddiad geni penodedig. Dylid ystyried canlyniad pob beichiogrwydd yn y garfan hon a'r ffactorau a arweiniodd at y penderfyniad i beidio ag ysgogi esgor o fewn y cyfnod amser a roddir yn y canllawiau. Dylid ystyried ymhellach a ddylid ysgogi esgor yn nes at y dyddiad geni penodedig mewn menywod sydd â ffactorau risg uchel eraill, megis mamau hen, mamau sy'n ysmygu neu'r rhai â phroblem pwysau.</p>	<p>Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei fonitro'n agos er mwyn sicrhau ei fod yn mynd rhagddo cyn gynted ag y bo modd.</p>	<p>Prif Swyddog Nyrsio Cymru yw cadeirydd y Gweithgor Cenedlaethol ar Farw-enedigaethau, a bydd y rôl honno'n sicrhau bod y mater hwn yn aros ar yr agenda.</p> <p>Mae Arolwg Amenedigol Cymru Gyfan wedi dadansoddi'r niferoedd nad yw'n dangos cynnydd o ran y nifer o achosion o farw-enedigaethau yn y grŵp ôl 40+13. Bydd hynny'n cael ei fwydo'n ôl i'r Gweithgor ym mis Mawrth.</p>
<p>Argymhelliad 6: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n ymchwilio ac yn cyflwyno adroddiad ar y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor fod gorfod ceisio ymgynghoriadau arbenigol (meddygaeth y ffetws) y tu allan i Gymru yn ddrutach erbyn hyn na darparu'r gwasanaeth yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd edrych yn fanwl ar y cynnig y dylai gwasanaethau arbenigol meddygaeth y ffetws gael eu comisiynu ar lefel drydyddol yn hytrach nag eilaidd.</p>	<p>Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am sut i fynd i'r afael ag anghenion merched yng ngogledd a chanolbarth Cymru.</p>	<p>Fel rhan o gynlluniau ad-drefnu'r byrddau iechyd, mae gwasanaethau mamolaeth a meddygaeth y ffetws yn cael/wedi cael eu darparu ochr yn ochr â gwasanaethau obstetreg risg uchel.</p> <p>Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae Obstetreg risg uchel yn rhan o'r Adolygiad presennol o Wasanaethau Cynaliadwy. Bydd y rhwydwaith hwn o wasanaethau'n cefnogi'r Ganolfan Is-ranbarthol ar gyfer Gofal Newyddenedigol Dwys a fydd ar safle Ysbyty Glan Clwyd.</p> <p>Byddai merched yng Nghanolbarth Cymru sydd angen gwasanaethau arbenigol meddygaeth y ffetws dan ofal obstetregydd ymgynghorol, a byddent yn cael eu</p>

		<p>cyfeirio at y gwasanaethau priodol drwy'r Bwrdd Iechyd sy'n gyfrifol am eu gofal.</p> <p>Cydnabyddir hefyd fod gwasanaethau meddygaeth y ffetws yn parhau i gael eu cryfhau fel nad yw'r ganolfan arbenigol yn cael gormod o bwysau gwaith y gellir ei ddelio ag ef yn well gan arweinwyr ym maes meddygaeth y ffetws yn y gwasanaethau lleol. Bydd y cynlluniau'n cael eu hadolygu gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru cyn pen chwe mis i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud o hyd.</p>
<p>Argymhelliad 7: Rydym yn argymhell y dylid datblygu safon ofynnol genedlaethol ar adolygu marwolaethau amenedigol a'i chyflwyno ar draws Cymru. Argymhellwn hefyd y dylid mabwysiadu ffordd fwy eang a dychmygus o ddefnyddio'r arian a neilltuir gan Lywodraeth Cymru i ymchwil ac astudiaethau meddygol, a bod Llywodraeth Cymru'n ceisio costiau manwl am archwiliad amenedigol cenedlaethol i Gymru gan Arolwg Amenedigol Cymru Gyfan. Credwn y gallai'r buddsoddiad cychwynnol yn yr archwiliad hwn ildio buddion sylweddol o ran canfod ac atal marw-enedigaethau yn y dyfodol.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio costiau manwl am archwiliad amenedigol cenedlaethol i Gymru.</p>	<p>Cytunwyd y bydd pedair llywodraeth y DU a GIG Lloegr yn gweithio ar y cyd i hwyluso cyflwyno adolygiadau safonol o farwolaethau amenedigol.</p> <p>Bydd yr adolygiadau hyn yn cael eu cyflwyno yn dilyn proses dri cham sy'n galluogi'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Timau clinigol unigol i ddeall beth sydd wedi mynd o'i le, a gallu cynnig gwybodaeth a fydd yn sail i drafodaethau â rhieni. ii. Yr ymddiriedolaethau i gymharu eu hunain yn erbyn unedau eraill. iii Adolygu ar lefel genedlaethol. Bydd y gwaith adolygu hwn yn barhaus a chaiff ei drafod drwy'r Gweithgor. <p>Bydd y Gweithgor yn monitro cynnydd datblygu a gweithredu adolygiad safonol yn y DU.</p>

<p>Argymhelliad 8: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi cynllun manwl ar sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r broblem a achosir gan y gyfradd post-mortem isel i fabanod marw-anedig. Dylai'r cynllun gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • manylion am sut y caiff hyfforddiant ei ddarparu i weithwyr iechyd proffesiynol fel eu bod yn fwy abl i godi'r mater hynod anodd hwn gyda rhieni sy'n galaru; • manylion am ba wybodaeth, a honno'n wybodaeth ragorach, fydd yn cael ei datblygu ar gyfer rhieni fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau'n well ar sail gwybodaeth; • asesiad o'r gweithredu sy'n ofynnol i wella'r ddarpariaeth patholeg amenedigol. 	<p>Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i gadw golwg manwl ar hwn. Os nad yw amserlenni gwell yn cael eu cyflawni dros y chwe mis nesaf, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai cylch gorchwyl yr Is-grŵp Patholeg Amenedigol gael ei ymestyn i gynnwys gwaith ar sut y mae adroddiadau post-mortem yn cael eu cyflwyno i rieni.</p>	<p>Bydd Diwrnod Hyfforddi'r Hyfforddwyr ar gael erbyn gwanwyn 2015.</p> <p>Bwriedir dechrau rhaeadru'r hyfforddiant mewn byrddau iechyd yn ystod chwe mis olaf 2015.</p> <p>Mae'r Is-grŵp Patholeg Amenedigol yn awyddus i weithio ar ddatblygu safon ar gyfer cyflwyno adroddiadau post-mortem i rieni, cyn gynted ag y byddant wedi cwblhau eu gwaith ar yr hyfforddiant ar gael caniatâd a'r daflen wybodaeth i gleifion.</p>
<p>Argymhelliad 9: Yn niffyg yr elusennau mawr a'r buddiannau diwydiant sy'n ariannu trwch yr ymchwil i gyflyrau iechyd eraill, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, drwy Ganolfan Ymchwil Glinigol y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, yn comisiynu darn cynhwysfawr o waith ar achosion gwaelodol marw-enedigaethau. Dylai'r</p>	<p>Mae'r Pwyllgor yn parhau i gredu bod angen gwaith ymchwil pellach i'r achosion sydd wrth wraidd i farw-enedigaethau o hyd.</p>	<p>Bydd Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Mamolaeth yn manteisio ar bob cyfle i gydweithredu â gweithwyr iechyd proffesiynol ac eraill, a'u hannog, i ddatblygu cynigion ar gyfer ymchwil yn y maes hwn, a thargedu cynlluniau sydd eisoes mewn bodolaeth, er enghraifft rhai'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.</p>

<p>gwaith hwn gael ei wneud mewn cydweithrediad â gweithwyr iechyd proffesiynol ac academyddion yn y maes, a dylai adlewyrchu'r wybodaeth ryngwladol am farw-enedigaethau. Dylai'r gwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd y Cynulliad hwn.</p>		
---	--	--